

# Cwmni Meini Dymunol

**Y**mae greddf casglu cyn hyned â'r ddynolryw. Mewn amgylchedd ansicr, llawn peryglon, buan y dysgodd ein cyndadau cyntaf gelcio bwyd, a'r offer angenrheidiol ar gyfer hela: cerrig miniog. Rhaid oedd gwybod pa rai oedd orau ar gyfer y gwaith, ac ymhle y'u ceid: ac o'u cael, eu cludo adref a'u cadw ar gyfer y dyfodol.

Gwelwyd cerrig llyfnion, disglair yn dymunol eu lliwiau a'u ffurf, a daeth meddu arnynt yn foddion arddangos golud a grym. Masnachwyd ac allforiwyd ambr, muchudd ac arenfaen, a'u claddu gyda'r boneddigion fel y gallent hwythau barhau i ddangos eu hunain yn y byd nesaf. Pan ddeallwyd fod crasu rhai meini gwyrddion yn peri i gopr ddiferu ohonynt, aeth canfod a rheoli cyflenwadau mwynau yn anhepgor ar gyfer sicrhau goruchafiaeth wleidyddol a rhagor fyth o gyfoeth.

## Arferid holtti a chaboli gleiniau

Ni pheiddiodd hynny. Erys gwisgo crisialau yn un o ddulliau mwyaf poblogaidd amlygu llwyddiant bydol, a gall trigolion Sierra Leone, Saïr a Cosofo dystio pa mor uchel yw pris gemau a mwynau heddiw. Arferir holtti a chaboli gleiniau gwerthfawr er mwyn eu tecáu: ond yng ngolwg rhai ohonom, nid yw'r ymdrechion hyn i ragori ar waith natur ond megis fandaliaeth. Gwell gennym brydferthwch neu brinder y meini hyn yn eu ffurf grai, a barnwn mai'r lle gorau ar eu cyfer yw cwpwrdd arddangos, nid gwddf neu glustiau'r sawl na wŷr nac na werthfawroga dim ond eu pris.

Dyma'r rhyfeddod: yng nghrombil y ddaear, y mae cemegolion yn cyfuno tan ddylanwad gwres a phwysedd, ac yn caledu'n greigiau. Weithiau, os yw'r amodau'n union gywir, y mae'r drefn hon yn esgor ar grisialau sy'n ymfateroliad perffaith o egwyddorion mathemategol cyfuniad eu cyfansoddion a ffiseg eu creu. Yn giwbig neu'n chwechochrog, yn grwn neu'n ganghennog, yn lliwiedig neu cyn dryloywed â dŵr, awydd eu canfod a'u hennill sy'n arwain y casglwr at ymdrech ddiddiwedd i ganfod yr esiampl orau o'i math: un all haeddu'i lle ar silff ucha'r cwpwrdd.

Gyda chymaint o amrywiaethau, 'does diben casglu popeth: felly'r duedd yw arbenigo mewn rhyw nodwedd neu'i gilydd. Arbenigo o ran sylweddau: ffosffadau, sylffadau, neu elfennau pur, er enghraifft. Arbenigo o ran



*Brwmstan yr Eidal*

lleoliad: Cymru, Namibia, neu Rwsia. Arbenigo o ran mwngloddiau unigol: Mina Ojuelas ym Mecsico, neu Stari Trg yn Serbia. Arbenigo o ran prinder, maint, neu liw. Ond uwchlaw pob mympwy o'r fath, yr hyn sydd bwysig yw'r rhinwedd anniffiniadwy hwnnw: apêl esthetaidd. Ydi'r sbesimen yn gymesur, yn gytbwys? Ydi o'n denu sylw, ac i'w weld ar ei orau o dan y goleuadau? Ynteu ydi o'n un llanast anolygus o beth? Dim ond llygad a chwaeth y casglwr all benderfynu.

## Ymweld â gweithfeydd yn hynod beryglus

Bûm innau'n casglu mwynau ers fy mhentyndod, ac y mae Cymru'n lle da ar gyfer hynny. Y mae yma amrywiaeth fawr o greigiau, faint a fynir o fwynau, a llawer o gloddio a thyllu er mwyn eu dwyn i olwg. Aur Dolaucothi, copr Môn, plwm Ceredigion, calsit Ffynnon Taf, fflŵorit Dyserth, manganis Llŷn... y mae'n rhestr faith. Ond oni bai i rywun wybod ym mha le'n union i'w canfod, neu wynebu gwaith hynod beryglus mentro i hen weithfeydd, rhaid dibynnu ar werthwyr: a phrin yw'r rheiny yn y wlad hon y ceibiwyd cymaint o gyfoeth o'i chrombil.




*Morlasfaen o Namibia*

Ceir a fynir o grisialau del wedi eu llyfnu a'u cerfio yn siopau tlysau unrhyw dref: ond yn ofer y chwiliwch hwy am blwm gwyrdd, 'olwynion' bŵmonit neu anatas Prenteg. Heblaw am ambell i siop brin y mae'i pherchennog yn gwybod y gwahaniaeth rhwng sffalerit a thaffi triog, rhaid dibynnu ar ffynonellau eraill: a'r godidocaf, mwnglawdd mwya'r byd, yw'r rhyngwyd.

Yno ceir cannoedd o safleoedd yn gwerthu miloedd o grisialau a cherrig, pob lliw a llun o bedwar ban. Gellir crwydro gwefannau am oriau neu ddyddiau bwygilydd, a llithro i gyflwr caethiwus wrth glicio'ch ffordd o'r naill dudalen i'r llall. Y gwir yw nad yw'r casglwr mwynau mor asgetaidd ac esthetaidd ag y dymunai feddwl: y mae ynddo yntau hefyd yr hen awydd meddiannu ac arddangos sy'n nodweddu unrhyw gasglwr arall, gan gynnwys y gwisgwyr breichledau aur a clust-dlysau deimwnt. Y mae golwg ar y prisiau'n ddigon i gadarnhau hynny.

Ie, pres. Diben y disgrifiadau lliwgar (esthetaidd...clasurol...perffaith...) a'r lluniau trawiadol yw gwahanu casglwyr rhag eu



*Hematit de Affrig*

harian, ac y mae gan rai fwy na digon o hwnnw. Ceir miliynyddion sy'n fodlon talu degau o filoedd o bunnoedd am enghraifft fawr, ysblynydd o ryw em grai neu fwn prin neu'i gilydd, gan wasgu'r gweddill ohonom i'r cysgod. Rhaid i'r tlodion fodloni ar yr ail-orau neu'r bychan; arbenigo mewn maes hynod ddedhol; neu chwilota gwefannau disylw am drysorau, a'u bachu cyn i neb arall eu gweld. A dyna adfer gwefr yr helfa i'r casglu: potsio trysorau tra bo'r cyfoethogion yn edrych i gyfeiriad arall.

## Beth sy'n pennu pris mwynau?

Ceir morgwn yn y dyfroedd hyn. A yw'r ddelwedd ar y sgrîn yn adlewyrchu'r gwirionedd, ynteu a yw'r gwerthwr wedi defnyddio golcuadau lliw wrth dynnu'r llun? Ai emrallt mewn calsit yw hwnnw, ynteu darn o wydr wedi'i ludo ar sment? Os yw mwn neilltuol yn brin, ac felly'n ddrudfawr, a fydd ei werth yn plymio os canfyddir cyflenwad enfawr ym Moroco yfory nesaf? A yw'r pris yn fargen, yn rhesymol, ynteu'n ddigywilydd? Beth sydd ar gynnig yn yr arwerthiannau arlein heddiw? A feiddiaf innau gynnig? Neu fentro gwerthu? Pwy yw'r lembo hwnnw sy'n cynnig yn f'erbyn?



*Aur y Clogau, Dolgellau*

Braf weithiau yw troi rhag y cyffro a'r cystadlu, ac ailfwrw golwg ar werin fy nghasgliad. Prydferthwch oeraidd sydd iddynt, ond y mae mor ddiymwad â harddwch noson serenog. Cynhelir Sioe Fwynau Fawr Tucson yr wythnos nesaf: bydd gwerthwyr a chasglwyr penna'r byd yn llesmeirio gerbron y cannoedd stondinau llifoleuedig, a'r cardiaid credyd yn wenfflam. Fydda'i ddim yno: ond y mae si bod gwefan Bwylaidd yn cynnig mymryn o aur Gwynfynydd...

**Howard Huws**